# Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

6ed o Fedi 2026

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Hoffwn estyn croeso cynnes iawn i'n disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor newydd a chroesawu 100 o ddisgyblion i flwyddyn saith ynghyd â disgyblion newydd dosbarth Dewi Draenog. Mae wedi bod yn bleser eu gweld yn setlo'n gyflym ac yn bositif i'w gweithgareddau, ac mae'r staff wedi bod yn falch iawn o'u hymagwedd a'u brwdfrydedd.

**Disgwyliadau Uchel**

Yn ystod yr wythnos gyntaf, rydym wedi bod yn pwysleisio ein disgwyliadau clir o ran safonau uchel ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Rydym hefyd wedi ailadrodd pwysigrwydd ein tair gwerth craidd—Cymuned, Cymreictod a Chynnydd—sy'n sail i ddiwylliant Ysgol Llanhari ac sy'n arwain ein disgyblion i fod yn aelodau cyfrifol, parchus ac uchelgeisiol o'n cymuned.

**Staff Newydd**

Fe groesawyd sawl aelod newydd o staff i'r ysgol wythnos diwethaf:

**Athrawon**: Mr Callum McGuinness (Addysg Gorfforol) Miss Jessica Hooper (Dylunio a Thechnoleg ac Arlwyo) Mr Josh Withers (Saesneg) Miss Mollie McLaughlin (Dyniaethau a Saesneg) Miss Jessica Griffiths (Cymdeithaseg a Iechyd a Lles). Miss Sara Jones yw Arweinydd Pwnc Addysg Gorfforol yn dilyn ymddeoliad Mr Iolo Roberts

**Staff Cynorthwyol**: Miss Nia Jones (Derbynydd) Miss Naomi Jones (Cynorthwydd yn yr Hafan uwchradd) Miss Lowri Williams a Mr Mabon Rhys (Cynorthwywyr cynradd)

**Llongyfarchiadau!**

Rydym hefyd yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn eu harholiadau diweddar. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu eu gwaith caled, eu dyfalbarhad a'u hymrwymiad dros gyfnod hir. Mae llawer wedi cyflawni canlyniadau rhagorol, ac mae nifer wedi rhagori ar eu targedau personol. Mae bron pob un o'r disgyblion Safon Uwch wedi cyrraedd neu ragori ar eu potensial gyda 91% o'r disgyblion yn ennill 3 gradd neu fwy ar A*-E, ac mae nifer o ganlyniadau nodedig gan unigolion sy'n haeddu canmoliaeth arbennig. Y merched oedd yn arwain y ffordd eleni gyda Caitlin Rees, Ffion Reid, Mali Jenkins a Lili Fiest yn llwyddo i ennill o leiaf 3 A*-A gradd. Rydym yn hynod falch o ddisgyblion Blwyddyn 13, nid yn unig am eu llwyddiannau academaidd yn arholiadau Haf 2026, ond hefyd am eu cyfraniad eang i fywyd yr ysgol tra roeddent yn ddisgyblion yn Llanhari.

Mae mwy o ddisgyblion na'r arfer wedi dychwelyd i flwyddyn 12 yn dilyn llwyddiant nodedig yn yr arholiadau TGAU. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 100% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-G ac o 'rheiny mae 82% wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-C, gyda 23% o'r garfan yn ennill 5 neu fwy o raddau A*-A. Llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol.

**Calendr**

Wrth edrych ymlaen, mae gennym flwyddyn brysur a chyffrous o'n blaenau. Bydd calendr llawn o weithgareddau a digwyddiadau ar y ffordd atoch yn fuan, ond dyma rai o'r prif ddigwyddiadau dros yr wythnosau nesaf:

- 9 Medi — Cyfarfodydd cwrdd â'r athro cynradd
- 9 Medi — Cyfarfod Anwytho Blynyddoedd 12 a 13
- 10 Medi — Taith Anwytho bl 12 i Brifysgol De Cymru
- 16 Medi — Prynhawn Agored y Dosbarth Meithrin ar gyfer disgyblion Medi 2027
- 21-23 Medi — Cwrs Preswyl Blwyddyn 7 ym Mae Caerdydd
- 23 Medi — Cyfarfod Anwytho Blwyddyn 10
- 23 Medi — Cyfarfod i rieni ar gyfer Taith Normandi Hydref 2026

Bydd cofnod cyson o ddigwyddiadau a gweithgareddau o fewn a thu allan y dosbarthiadau ar ein cyfrif *Instagram* ysgol_llanhari

**Bromcom**

Rydym yn parhau i ddatblygu ein defnydd o Bromcom a'r ap *My Child at School.* Cewch ohebiaeth yn fuan am y datblygiadau diweddaraf. Hyderwn eleni y bydd y drefn o gofnodi absenoldeb yn haws i chi fel rhieni a hefyd y cyfathrebu am wobrwyo a sancisynau wrth inni ddatblygu ar ein polisi ymddygiad cadarnhaol.

Diolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn barod i ddysgu. Cofiwch gysylltu â ni ar post@llanhari.cymru os oes unrhyw gwestiynau gennych yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir

Meinir Thomas

Meinir Thomas

Pennaeth

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

6th of September 2026

Dear Parents and Carers,

I would like to extend a very warm welcome to our pupils as they return to school at the start of the new term and welcome 100 pupils to year seven along with new pupils to Dewi Draenog, our nursery class. It has been a pleasure to see them settling quickly and positively into their routines, and staff have been delighted with their attitude and enthusiasm.

**High Expectations**

During the first week, we have emphasised our clear expectations in respect of high standards in all aspects of school life. We have also revisited the importance of our three core values—Community, Welshness and Progress—which underpin our school culture and guide our pupils to be responsible, respectful and ambitious members of our community.

**New Staff**

We have welcomed many new members of staff to school last week :

**Teachers** : Mr Callum McGuinness (Physical Educations) Miss Jessica Hooper (Design Technology and Catering) Mr Josh Withers (English) Miss Mollie McLaughlin (Humanities and English) Miss Jessica Griffiths (Sociology and Health and Wellbeing). Miss Sara Jones is now Subject Leader for Physical Education following Mr Iolo Roberts' retirement.

**Support Staff**: Miss Nia Jones (Receptionist) Miss Naomi Jones (wellbeing support in the secondary department's Hafan) Miss Lowri Williams and Mr Mabon Rhys (LSAs in the primary department)

**Congratulations!**

We are also extremely proud of the achievements of our Year 11 and Year 13 pupils in their recent examinations. Their results reflect their hard work, perseverance and commitment over a long period. Many achieved excellent outcomes, with a number surpassing their personal targets. Almost every learner has reached, and in many cases exceeded, their potential, with 91% of the pupils attaining at least 3 or more grades at A*-E. There are a number of exceptional individual achievements which deserve special recognition. The girls are leading the way this year with Caitlin Rees, Ffion Reid, Mali Jenkins and Lili Fiest attaining at least 3 A*-A grades. We are immensely proud of our Year 13 students—not only for their academic success, but also for the contribution they have made to the school during their time here.

An increased number of pupils have returned to year 12 following their excellent GCSE success. Most notably, 100% of the cohort achieved A*-G grades in at least five or more subjects, and of those, 82% of the pupils achieved an A*-C grade in five or more subjects with 23% of the cohort achieving 5 or more A*-A grades. The school is very proud of all year 11 pupils as this set of excellent examination results saw pupils across the ability range achieving their goals.

**Calendar**

Looking ahead, we have a busy and exciting year in front of us. A full calendar of activities and events will be shared with you soon, but here are some of the key events taking place over the next few weeks:

- 9 September Meet the teacher meetings in the Primary Department
- 9 September Induction Evening years 12 and 13
- 10 September Year 12 induction trip to the University of South Wales
- 16 September Nursery Class Open Afternoon for September 2027 pupils
- 21-23 September Year 7 Residential Course in Cardiff Bay
- 23 September Induction Evening Year 10
- 23 September Parents' meeting for the Normandy Trip October 2026

Activities and visits will be documented on our *Instagram* account ysgol_llanhari

**Bromcom**

We are continuing to develop our use of Bromcom and the *My Child at School* app. You will receive correspondence soon about the latest developments. We trust that this year the process for recording your child's absence will be easier for you as parents and also the communication regarding rewards and sanctions as we develop our positive behavior policy.

Thank you for your continued support. It plays a vital role in ensuring every pupil feels safe, happy and ready to learn. Please do not hesitate to contact us on post@llanhari.cymru should you have any questions during the year.

Yours sincerely,

Meinir Thomas

Meinir Thomas

Headteacher